# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
9 Tachwedd 2015

### CLA594 - Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Adrannau 166-169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol i gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth ar gyfer darparu swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniadau partneriaeth, sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol a sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun.

### CLA595 - Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, p'un a ydynt yng ngofal yr awdurdod lleol yn rhinwedd gorchymyn gofal ai peidio. Maent hefyd yn ymdrin â chynllunio gofal a phenderfyniadau lleoli ac adolygu achos plentyn sy'n derbyn gofal, gan gynnwys: -

– trefniadau ar gyfer gofalu am blentyn

– leoliadau - darpariaethau cyffredinol

– darpariaeth ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau:

- lleoli plentyn gyda rhieni
- leoliad gyda rhieni maeth awdurdod lleol
- trefniadau eraill

– ymweliadau gan gynrychiolydd yr awdurdod lleol cyfrifol ac ati

– adolygiadau o achos y plentyn

– trefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am roi'r gorau i ofalu am blentyn

– swyddogion adolygu annibynnol ac ymwelwyr annibynnol; a

– chymhwyso'r Rheoliadau gydag addasiadau i blant sy'n aros eu prawf neu sy'n cael eu cadw

– darparu seibiannau byr i blant sy'n derbyn gofal.

## CLA596 - Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 97 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau y caiff ymweliadau eu cynnal â phlant sy'n derbyn gofal a phlant eraill, a'u bod yn cael cysylltiad â phobl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ymweld â phlant sydd, ar ôl eu cael yn euog o drosedd gan lys: -

– yn cael eu cadw mewn llety cadw ieuenctid neu yn y carchar, neu

– yn ofynnol iddynt fyw mewn llety cymeradwy

ac nad oes ganddynt hawl i gael gofal a chymorth parhaus o dan y Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015, (neu ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal, neu ymweliadau i gyn blant sy'n derbyn gofal yn y ddalfa.

## CLA597 - Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015

## Gweithdrefn: Negyddol

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael yr un lefel o ofal a chefnogaeth ag y byddai eu cyfoedion yn ei ddisgwyl gan riant rhesymol a'u bod yn cael y cyfleoedd a'r cyfle sydd ei angen i'w helpu i symud yn llwyddiannus i mewn i oedolaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran y gefnogaeth sydd i'w darparu i rai pobl ifanc nad ydynt bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, gan gynnwys personau ifanc categori 2, 3 a 4. Mae'r Rheoliadau yn darparu bod categori ychwanegol o berson ifanc, person ifanc categori 2, sy'n cynnwys plentyn 16 neu 17 mlwydd oed a oedd yn cael ei gadw neu ei dderbyn i'r ysbyty ac a oedd yn flaenorol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am 13 wythnos, yn destun yr un hawl i lety addas â phersonau ifanc categori 2 eraill.

## CLA598 - Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion mewn perthynas â lleoli plant mewn llety diogel.

Maent yn sefydlu fframwaith ar gyfer gosod plant sy’n derbyn gofal mewn llety diogel, gan roi mesurau diogelu ar waith i sicrhau bod lleoliadau o’r fath yn cael eu trefnu er lles gorau’r plentyn, a bod gwiriadau a chamau priodol i bwyso a mesur i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei roi mewn llety o’r fath heb ddilyn y drefn briodol.

## CLA599 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Apelau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau Rhagnodedig) (Cymru) 2015

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Apelau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau Rhagnodedig) (Cymru) 1997 mewn perthynas â Chymru, gyda rhai newidiadau.

Mae’r rheoliadau hyn hefyd yn rhagnodi dosbarthiadau o apêl o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf  Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 sy’n cael eu penderfynu gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan Weinidogion Cymru.

## CLA600 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (Buddiannau Cofrestradwy) 2015

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae paragraff 13(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol  2015 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yng Nghymru ("y Comisiynydd") greu a chynnal cofrestr sy’n cynnwys holl fuddiannau cofrestradwy y Comisiynydd a’r Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yng Nghymru ("y Dirprwy Gomisiynydd").

Mae paragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i’r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu pa fuddiannau sy’n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 2 i’r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn gan ddibynnu ar y pŵer a ddarperir gan baragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i’r Ddeddf.  Mae rheoliad 2 yn cyflwyno’r Atodlen i’r Rheoliadau sy’n pennu buddiannau cofrestradwy y Comisiynydd a’r Dirprwy Gomisiynydd.